

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Cynllun Cyhoeddi



Mae gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** draddodiad hir o sicrhau fod gwybodaeth ar gael ac yn hygyrch. Mae'n ceisio bod yn agored ac yn atebol ac mae eisoes yn cynnig gwybodaeth helaeth i'r cyhoedd am ei weithgareddau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu cynllun cyhoeddi enghreifftiol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 2009 ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus. Mae'r cynllun enghreifftiol yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth sector cyhoeddus a dyma'r dull y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i sicrhau fod yr wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi yn rheolaidd ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r cynllun yn nodi saith dosbarth ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth;

1. Pwy ydyn ni a beth rydym ni'n ei wneud

Gwybodaeth sefydliadol, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethu cyfreithiol a chyfansoddiadol

2. Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario

Gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud â rhagamcan a gwir incwm a gwariant, tendro, caffael a chytundebau

3. Beth yw ein blaenoriaethau ac a ydyn ni'n llwyddo

Gwybodaeth strategaeth a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygon ac adolygiadau

4. Sut rydym ni'n gwneud penderfyniadau

Cynigion a phenderfyniadau polisi, prosesau gwneud penderfyniadau, meini prawf a threfnau mewnol, ymgynghoriadau

5. Ein polisiau a'n trefnau

Trefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau

6. Rhestrau a chofrestrau

Gwybodaeth mewn cofrestrau sy'n ofynnol gan y gyfraith a rhestrau a chofrestrau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod

7. Y gwasanaethau rydym yn eu cynnig

Cyngor ac arweiniad, llyfrynnau a thafleuni, trafodion a datganiadau i'r wasg, disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir

Trwy fabwysiadu'r cynllun cyhoeddi a gymeradwywyd, mae'r Cyngor yn ymrwmo i;

- sicrhau fod gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan yr awdurdod, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, ar gael, neu'n cael ei chyhoeddi yn rheolaidd ar y wefan
- nodi pa wybodaeth sydd gan yr awdurdod, ac i ba un o'r saith dosbarth gwybodaeth yn y cynllun y mae'n berthnasol, a chyhoeddi'r modd y gellir cael yr wybodaeth hon er mwyn i'r cyhoedd adnabod yr wybodaeth a chael mynediad ati
- adolygu a diweddarau'r wybodaeth sydd ar gael gan yr awdurdod dan y cynllun cyhoeddi, a hynny'n rheolaidd
- cynhyrchu atodlen o ffioedd ar gyfer cael mynediad at wybodaeth
- sicrhau fod y cynllun cyhoeddi ar gael i'r cyhoedd

Mae'r wybodaeth a'r cyhoeddiadau ar ein gwefan ar gael ar-lein am ddim. I'r rhai hynny heb fynediad at y rhyngwrwyd, gallwn ddarparu argraffiadau o dudalennau gwe sengl am ddim, a gellir trefnu hyn trwy gysylltu â'r Uned Rheoliadau Gwybodaeth.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd gwybodaeth ar gael i'w weld wyneb yn wyneb yn unig, bydd apwyntiad yn cael ei drefnu o fewn cyfnod amser rhesymol.

Ni fydd gwybodaeth fel arfer yn cynnwys;

- Gwybodaeth ar ffurf drafft
- Gwybodaeth eithriedig dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu wybodaeth y mae'r gyfraith yn ein rhwystro rhag ei datgelu
- Gwybodaeth sydd ddim ar gael yn hawdd bellach, oherwydd ei bod mewn ffeiliau sydd mewn storfa archif, neu sy'n anodd ei chael am resymau tebyg

Mae Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth Prydain yn awdurdod annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Prydain i gynnal hawl i wybodaeth er lles y cyhoedd, hyrwyddo didwylledd gan gyrrff cyhoeddus, a phreifatrwydd data ar gyfer unigolion.

**I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.conwy.gov.uk/cynlluncyhoeddi
neu cysylltwch â'r;**

Uned Rheoliadau Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
Rhif ffôn: 01492 574016 / 574024
E-bost: info-regs.unit@conwy.gov.uk

